

Cyfeirnod: IR770

Dyddiad cyhoeddi: 2 Chwefror 2021

Sgiliau yn y Gymraeg

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 7 Ionawr lle gwnaethoch ofyn am wybodaeth am sgiliau yn y Gymraeg.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhychu eich cwestiynau isod ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol: Ymholiad ynglŷn â sgiliau yn y Gymraeg o fewn grŵp staff penodol o'ch sefydliad fel a ganlyn:

1. A allech gadarnhau nifer y swyddi Rheolwyr Archwilio yn Archwilio Cymru o'r dyddiad cyfredol, sef, 7 Ionawr 2021. At ddibenion y cais hwn, rwy'n ystyried bod swydd Rheolwr Archwilio fel y'i hysbysebwyd ar 1 Rhagfyr 2020 o dan y cyfeirnod swydd WAO0159/2020.

Mae tri deg dau person yn dal swydd Rheolwr Archwilio ar hyn o bryd.

Sylwer na fyddai pob un o'r rheolwyr hyn wedi cael eu recriwtio gyda'r union ddisgrifiad swydd yn unol â'r cyfeirnod WAO0159 - ystyrir gofynion ynglŷn â'r Gymraeg bob tro y bydd gennym swydd newydd neu wag.

2. A allech gadarnhau nifer y cyflogeion sydd yn dal y swyddi Rheolwr Archwilio ar hyn o bryd a ddarperir yng nghwestiwn 1 sy'n medru'r Gymraeg yn rhugl.

Pedwar. Yn unol â'r ateb uchod i C1, ni fyddai pob Rheolwr Archwilio wedi cael ei recriwtio gyda'r disgrifiad swydd o dan gyfeirnod SAC0159/2020, gan fod gofynion ynglŷn â'r Gymraeg yn cael eu hystyried bob tro y bydd gennym swydd newydd neu wag.

3. A allech gadarnhau a yw'r disgrifiad swydd a manyleb y person ar gyfer swyddi Rheolwyr Archwilio yn eich sefydliad yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid swyddi fod yn siaradwyr Cymraeg rhugl, ac os felly, darparu'r darn perthnasol o'r dogfennau hyn.

Rydym yn destun hysbysiad cydymffurfio mewn perthynas â'r Gymraeg, sydd ar gael ar ein gwefan. Felly, bob tro y bydd gennym swydd newydd neu wag, rydym yn adolygu anghenion ynglŷn â'r Gymraeg o ran y swydd benodol honno a pha sgiliau iaith y byddai eu hangen ar ddeiliad y swydd. Manylir ar hyn yn Safon 132 o'r hysbysiadau cydymffurfio sydd i'w gweld ar dudalen y Gymraeg ar wefan Archwilio Cymru

<https://www.audit.wales/cy/y-gymraeg>

Ar gyfer y swydd wag cyfeirnod WAO0159/2020 y cyfeirir ati uchod – roedd y Gymraeg yn ofynnol (er nad yw hyn wedi bod yn ofynnol ar gyfer pob swydd wag Rheolwr Archwilio). Er hwylustod, rwyf wedi amgáu'r disgrifiad swydd ar gyfer swydd wag WAO0159/ 2020 a oedd yn nodi bod angen Sgiliau yn y Gymraeg ar dudalen 4.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am y ffordd yr ymdriniais â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth